Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 19 Chwefror 2013**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda
(113) v5

**1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y cwestiynau

**2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)**

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

**3. Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd: Halogi Cynnyrch Cig Eidion (30 munud)**

**4. Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau: Diwygio TGCh - adolygu'r rhaglen Dysgu Digidol (30 munud)**

**5. Datganiad gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau: Cyflwyno'r Bil Teithio Byw (Cymru) (60 munud)**

**6. Datganiad gan y Cwnsler Cyffredinol: Y diweddaraf ynghylch Mynediad at Ddeddfwriaeth (30 munud)**

**7. Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol - y Bil Ynni (15 munud)**

NDM5120 John Griffiths (Dwyrain Casnewydd)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried darpariaethau'r Bil Ynni sy'n ymwneud â sefydlu safonau

perfformiad ynghylch allyriadau i osod terfynau ar faint o garbon deuocsid y gall gorsaf bŵer tanwydd ffosil newydd (h.y. un sy'n cael ei phweru gan lo, olew neu nwy "naturiol") ei ollwng yn ystod unrhyw flwyddyn benodol, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol wedi'i osod yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Rhagfyr 2012 yn unol â Rheol Sefydlog 29.2(i).

**Dogfennau Ategol**
I weld copi o'r Bil ewch i:
http://services.parliament.uk/bills/2012-13/energy.html
Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol
Adroddiad Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

**8. Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol - y Bil Mordwyo Morol (Rhif 2) (15 munud)**

**NDM5126 Alun Davies (Blaenau Gwent)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried darpariaethau'r Bil Mordwyo Morol (Rhif 2), sy'n ymwneud â diwygiadau i Ddeddf Peilota 1987, Deddf Harbyrau 1964 a Deddf Llongau Masnach 1995, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol wedi'i osod yn y Swyddfa Gyflwyno ar 21 Rhagfyr 2012 yn unol â Rheol Sefydlog 29.2(iii).

**Dogfennau Ategol**
I weld copi o'r Bil ewch i:
http://services.parliament.uk/bills/2012-13/marinenavigationno2.html
Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol
Adroddiad Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

**9. Dadl: Setliad yr Heddlu (60 munud)**

**NDM5163 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol ag Adran 84H o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, yn cymeradwyo Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (Rhif 2) 2013-2014 (Setliad Terfynol - Awdurdodau Heddlu) a osodwyd yn y Swyddfa

Gyflwyno ar 4 Chwefror 2013.

**Dogfen Ategol**

Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (Rhif 2) 2013-2014 (Setliad Terfynol - Awdurdodau Heddlu)

**Cyfnod Pleidleisio**

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mercher, 20 Chwefror 2013

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 14 Chwefror 2013 i'w hateb ar 19 Chwefror 2013

R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)

Mae'r Llywydd wedi cytuno i alw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

1. Vaughan Gething (De Caerdydd a Phenarth): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am adroddiad GMB a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn cadarnhau bod 111 o weithwyr Cymru ar restr wahardd y Gymdeithas Ymgynghori ar gyfer y diwydiant adeiladu. OAQ(4)0902(FM)

2. David Rees (Aberafan): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru'n ei wneud i gefnogi datblygu economaidd yng Nghymru. OAQ(4)0917(FM)

3. Peter Black (Gorllewin De Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu sut y mae Llywodraeth Cymru yn monitro Blas am Oes. OAQ(4)0898(FM)

4. Nick Ramsay (Mynwy): Beth mae Llywodraeth Cymru'n ei wneud i hybu addysgu cerddoriaeth ymhlith plant oedran ysgol. OAQ(4)0904(FM)

5. Llyr Huws Gruffydd (Gogledd Cymru): Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o bwysigrwydd cysylltiadau band eang i economi Cymru. OAQ(4)0914(FM)W

6. Julie Morgan (Gogledd Caerdydd): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ei ymweliad diweddar â San Francisco. OAQ(4)0907(FM)

7. Ann Jones (Dyffryn Clwyd): A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu cynlluniau Llywodraeth Cymru i wella lles anifeiliaid yn Nyffryn Clwyd. OAQ(4)0908(FM)

8. Mick Antoniw (Pontypridd): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad yn amlinellu'r manteision i Gymru a fydd yn deillio o'i ymweliad diweddar â San Francisco. OAQ(4)0906(FM)

**9. Aled Roberts (Gogledd Cymru)**: Sut y mae Llywodraeth Cymru yn monitro sut y caiff argymhellion i adroddiadau pwyllgorau'r Cynulliad sydd wedi'u derbyn eu rhoi ar waith. OAQ(4)0913(FM)W

**10. William Graham (Dwyrain De Cymru)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am effaith y system terfyn cyflymder newidiol rhwng cyffordd 24 a chyffordd 28 yr M4 ar lif y traffig. OAQ(4)0909(FM)

**11. Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro)**: A wnaiff y Prif Weinidog roi manylion ynghylch y meysydd y mae Uned Gyflawni'r Prif Weinidog yn eu hasesu ar hyn o bryd, ac y bydd yr Uned yn eu hasesu eleni. OAQ(4)0911(FM)

**12. Eluned Parrott (Canol De Cymru)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y cymorth sydd ar gael i gyn-filwyr a phersonél y gwasanaethau brys sydd ag Anhwylder Straen Wedi Trawma yng Nghymru. OAQ(4)0916(FM)

**13. Sandy Mewies (Delyn)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr effaith y mae newidiadau i drefniadau dyrannu'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd yn debygol o'i chael ar Gymru. OAQ(4)0910(FM)

**14. Elin Jones (Ceredigion)**: A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu ei gyfarfod diweddaraf â Chadeiryddion Byrddau Iechyd Lleol. OAQ(4)0901(FM)W

**15. Ken Skates (De Clwyd)**: A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer mynd i'r afael â salwch meddwl yn 2013. OAQ(4)0903(FM)

Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dydd Mawrth 26 Chwefror a dydd Mercher 27 Chwefror 2013

Dydd Mawrth 5 Mawrth a dydd Mercher 6 Mawrth 2013

Dydd Mawrth 12 Mawrth a dydd Mercher 13 Mawrth 2013

******************************************************************

Dydd Mawrth 26 Chwefror 2013

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan Weinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy: Datblygu cynlluniau ynni cymunedol yng Nghymru (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth: Cyfleoedd i bobl anabl gymryd rhan mewn chwaraeon yng Nghymru (30 munud)
- Dadl: Cymorth y Llywodraeth i fusnesau newydd yng Nghymru (60 munud)

Dydd Mercher 27 Chwefror 2013

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (45 munud)
- Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol (45 munud)

Busnes y Cynulliad

- Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad (15 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (120 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl Fer – Llyr Huws Gruffydd (Gogledd Cymru) (30 munud)

Dydd Mawrth 5 Mawrth 2013

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ: Diwrnod Rhyngwladol y Menywod (45 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth: Ardrethi Busnes (30 munud)
- Dadl: Yr Ail Gyllideb Atodol 2012-13 (30 munud)
- Dadl Cyfnod 3 ar y Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru) o dan Reol Sefydlog 26.44 (90 munud)

  "Yn unol â Rheol Sefydlog 26.36, mae'r gwelliannau i gael eu gwaredu yn y drefn y mae'r adrannau a'r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn codi yn y Bil.

  Ar ddiwedd Cyfnod 3 caiff y Gweinidog gynnig bod y Bil yn cael ei basio yn unol â Rheol Sefydlog 26.47. Os derbynnir ar y cynnig:

  Cynnig Cyfnod 4 o dan Reol Sefydlog 26.47 i gymeradwyo'r Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru)."

Dydd Mercher 6 Mawrth 2013

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Dadl Cyfnod 1 ar y Bil Safleoedd Rheoleiddiedig Cartrefi Symudol (Cymru) (60 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar yr ymchwiliad i sefydlu awdurdodaeth ar wahân i Gymru (60 munud)

- Amser a neilltuwyd i’r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Dadl Fer - William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru) (30 munud)

Dydd Mawrth 12 Mawrth 2013

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i’r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Gorchymyn Ystadegau Swyddogol (Cymru) 2013 (15 munud)
- Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Canfod Twyll a Gorfodi) (Cymru) (15 munud)
- Dadl: Ansawdd yn y GIG - sicrhau dysgu o Adroddiad Francis (60 munud)

Dydd Mercher 13 Mawrth 2013

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau i’r Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ (45 munud)
- Cwestiynau i’r Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth (45 munud)

Busnes y Cynulliad

- Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru (60 munud)
- Dadl Fer - Paul Davies (Preseli Sir Benfro) (30 munud)